# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 22 Mai 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Councillors Meirick Davies, Mabon Ap Gwynfor, Huw Jones, Arwel Roberts, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Addysg a Gwasanaethau Plant (KE) a Swyddog Cyllid/A.151 (RW); Rheolwr Tîm a Rhaglen Datblygiad Economaidd a Busnes (MH); Rheolwr Prosiect (KW); Pen Reolwr – Moderneiddio Addysg (GD); Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael (HM); Partner Busnes Caffael (MW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 -

Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Llywodraethwr/Rhiant plentyn mewn ysgol yn Sir Ddinbych
Cynghorydd Brian Jones – Rhiant plentyn mewn ysgol yn Sir Ddinbych
Cynghorydd Tony Thomas – Rhiant plentyn mewn ysgol yn Sir Ddinbych

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

**5 CYNLLUN ADFYWIO RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU A RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD ADFYWIO LLYWODRAETH CYMRU**

Gwnaeth y Cynghorydd Hugh Evans gyflwyno'r adroddiad a chyflwynodd Gynllun Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru 2018 – 2035 a chynigion ar gyfer Targedu Buddsoddiad Adfywio ar gyfer ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio wedi'i lansio gan Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o gyllid ar gyfer prosiectau adfywio dros dair blynedd gyda £22m wedi'i ddyrannu i Ogledd Cymru. Roedd angen dull cydweithredol gan fod cyllid yn amodol ar gyflwyno Cynllun Adfywio Rhanbarthol wedi'i flaenoriaethu a gytunwyd gan chwe chyngor Gogledd Cymru. Yn unol â threfniadau ariannu, roedd deuddeg ardal ar draws y rhanbarth wedi'u cynnig fel ardaloedd blaenoriaeth ar sail sgorau amddifadedd a oedd yn cynnwys y Rhyl a Dinbych, gyda phedair ardal flaenoriaeth (gan gynnwys y Rhyl) wedi'u nodi ar gyfer y cyfnod ariannu tair blynedd dechreuol. Rhoddwyd eglurhad o'r rheswm y tu ôl i'r ffocws ar y Rhyl fel ardal flaenoriaeth gan ystyried y meini prawf ariannu a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a sgôr y Rhyl fel y dref fwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru, ac o ystyried buddsoddiad y Cyngor a'i ymrwymiad i adfywio'r Rhyl, roedd yn briodol bod opsiynau ariannu posibl yn cael eu defnyddio i helpu i gyflawni'r nod hwnnw. Roedd yr adroddiad yn cydnabod tlodi a oedd yn gysylltiedig ag aneddiadau trefol mwy a'r angen i fynd i'r afael â thlodi ac adfywio mewn trefi bach ac ardaloedd gwledig a gobeithiwyd y byddai'n cael sylw yn ystod oes y Cynllun.

Gwnaeth y Cabinet groesawu'r dyraniad cyllid ar gyfer adfywio ardaloedd yn y rhanbarth ond gwnaeth gydnabod y cyfyngiadau ar gyfer cael mynediad i'r cyllid hwnnw o ystyried y meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o ran y fethodoleg ar gyfer blaenoriaethu ardaloedd adfywio a'r angen am ddull rhanbarthol gan arwain at gonsensws ar draws pob un o chwe chyngor Gogledd Cymru a oedd angen rhywfaint o drafod a chyfaddawdu ar bob ochr. Nododd y Cabinet hefyd fod meini prawf a dull thematig y Cynllun Adfywio Rhanbarthol wedi'u halinio'n eang â blaenoriaethau corfforaethol eraill ac roedd yn amlygu'r angen i Sir Ddinbych gynyddu cyfleoedd o weithio rhanbarthol yn hynny o beth.

Gan ymateb i gwestiynau, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion -

- roedd y Cynllun Adfywio Rhanbarthol wedi'i gymeradwyo gan dri chyngor ac roedd yn debygol o gael ei gymeradwyo gan y cynghorau eraill o ystyried y byddai'r cyllid yn cael ei golli fel arall
- o ran monitro, roedd ffigurau gwaelodlin wedi'u nodi ar gyfer gwahanol ardaloedd adfywio i fesur cynnydd a chanlyniadau ar lefel rhaglen a byddai gan brosiectau unigol sy'n dod o'r Cynllun eu targedau eu hun a fyddai'n destun craffu gan Lywodraeth Cymru cyn i arian gael ei ddyrannu
- roedd cyfleoedd pellach y tu allan i'r Cynllun i gefnogi blaenoriaethau eraill ac edrych ar amrywiaeth eang o wahanol fentrau Llywodraeth Cymru ac roedd gwaith yn cael ei wneud i arwain y ffynonellau cefnogaeth eraill hynny, a buddsoddiad dros y tymor hir

- roedd ymgysylltiad cadarnhaol wedi bod ar lefel swyddog gyda chytundeb ac ymrwymiad i faterion allweddol ar draws y rhanbarth – ar ôl cydweithio i gytuno blaenoriaethau, ystyriwyd bod y Cynllun Adfywio Rhanbarthol yn gyfaddawd da a rhesymol
- Roedd y Rhyl wedi'i osod yn gyntaf o ran trefn amddifadedd ac roedd wedi'i nodi ar gyfer targedu buddsoddiad yn y tair blynedd cyntaf, fodd bynnag mae'n bosibl y bydd rhywfaint o arian yn cael ei ddenu i Ddinbych yn y tymor byr ar draws gynigion thematig tai ac adeiladau allweddol ac yn y tymor hwy roedd Dinbych mewn sefyllfa dda i fanteisio, gan ystyried ei fod wedi'i sgorio yn y degfed safle o ran amddifadedd
- roedd mater o ran cymunedau llai a thlodi gwledig hefyd wedi'i nodi yn y Cynllun ac roedd gwaith yn mynd rhagddo o ran sut i fynd i'r afael â'r anghenion hynny orau a'u blaenoriaethu yn y dyfodol wrth gydymffurfio â meini prawf Llywodraeth Cymru hefyd
- roedd rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio angen arian cyfatebol ar gyfer prosiectau o 30% a allai ddod o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys amser swyddogion, ffynonellau'r sector cyhoeddus a phreifat a thrwy brosesau arferol y cyngor.

Yn ystod trafodaeth bellach, trafodwyd y cefndir a'r rhesymeg y tu ôl i flaenoriaeth y Cyngor ar gyfer adfywio'r Rhyl. Er ei bod yn siomedig nodi safle'r Rhyl yn y sgorau amddifadedd, roedd y buddsoddiad sylweddol yng nglan y môr a phrosiectau seilwaith wedi'u hamlygu ynghyd â'r cam nesaf i ganolbwyntio ar y materion ehangach a chanlyniadau i bobl leol, gwella iechyd, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd. Gwnaeth Swyddogion ymhelaethu ar waith adfywio arall hefyd a chynlluniau ar gyfer canol y dref a chyfeiriwyd at waith yn Rhaglen ehangach Adfywio'r Rhyl. Er bod meini prawf ar gyfer ffrwd ariannu'r Cynllun Adfywio Rhanbarthol yn seiliedig ar gyfalaf o ran darparu allbynnau economaidd a thai penodol, byddai prosiectau sy'n dod i'r amlwg drwy'r rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio yn cysylltu ag elfennau eraill o adfywio, gan gynnwys rhoi sylw i rwystrau i gyflogaeth a buddion cymunedol i greu cyfleoedd gwaith.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *cymeradwyo -*

- *cyflwyno Cynllun Adfywio Rhanbarthol Gogledd Cymru terfynol (a blaenoriaethau eang sydd wedi'u cynnwys ynddo) i Lywodraeth Cymru er mwyn cael mynediad i gronfeydd Targedu Buddsoddiad Adfywio*
- *prosiectau amlinellol a gynigiwyd i'w cyflwyno gan y Cyngor i'r rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio*
- *awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Economi a'r Parth Cyhoeddus mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid (y Swyddog Adran 151) i -*
    - *wneud unrhyw geisiadau cyllido prosiect sy'n angenrheidiol i ddiogelu adnoddau o'r rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio ar gyfer cyfnod ei weithrediad*

- *derbyn a gweithredu gwariant ar brosiectau sy'n cael mynediad i gefnogaeth rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio, gan gynnwys dyfarnu grantiau i drydydd parti*
- *trafod a llunio cytundebau gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru lle mae angen i wneud cais ar gyfer cronfeydd rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio, neu i gael y cronfeydd hynny*

*(b)* *nodi y bydd adolygiad blynyddol o'r Cynllun Adfywio Rhanbarthol yn unol â threfniadau llywodraethu a monitro (a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad) i gynnig cyfle ar gyfer newidiadau o ran strategaeth a chyfeiriad a allai ganolbwyntio adnoddau ar drefi/ardaloedd eraill)*

*(c)* *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 6 CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020

Cyflwynodd Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad a chyflwynodd Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 - 2020 arfaethedig y Cyngor i'w gymeradwyo (roedd y Cynllun drafft wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018).

Roedd y Cynllun yn dangos sut roedd y Cyngor yn bwriadu cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir ac roedd yn canolbwyntio ar wella sgiliau, yn enwedig cyfathrebu llafar a dealltwriaeth. Y nod hirdymor oedd i holl blant a phobl ifanc y sir adael addysg llawn amser gyda'r gallu a'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts at lwyddiant blaenorol y Cyngor o ddatblygu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a buddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac roedd Estyn wedi canmol dull y Cyngor yn ystod yr arolwg diweddar o wasanaethau addysg. Byddai'r Cynllun yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys ysgolion, yr Urdd, Mudiad Meithrin a Menter Iaith ac roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod amrywiaeth o ffrydiau ariannu ar gael i helpu i gyrraedd targedau gan gynnwys arian cyfalaf £30m a grantiau datblygu'r gweithlu £2m a gellid gwneud ceisiadau yn erbyn rhain. Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Phlant amlygu'r broses ymgynghori gynhwysfawr o ran gosod amcanion a rôl Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ran datblygiad y Cynllun a monitro ei ddarpariaeth. Roedd elfennau allweddol yn canolbwyntio ar (1) ansawdd a safonau Cymraeg a gaiff ei haddysgu drwy gwricwlwm ysgolion, gwella canlyniadau i ddysgwyr a lefel rhuglder ar draws pob ysgol, a (2) sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn addysg Cyfrwng Cymraeg. Gwnaeth y Pennaeth Gwasanaeth ganmol y Cynllun a'r gwaith caled o ran ei ddatblygiad.

Gwnaeth y Cabinet groesawu'r Cynllun fel ffordd o ddatblygu addysg Cyfrwng Cymraeg ymhellach yn y sir a chyfrannu at y targed cenedlaethol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rhoddwyd teyrnged hefyd i'r rhai sy'n ymwneud â datblygu'r Cynllun a soniwyd yn benodol am Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Ychwanegodd y Cynghorydd Arwel Roberts a'r Cynghorydd Emrys

Wynne, a oedd yn aelodau o Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg, eu cefnogaeth i'r Cynllun a chanmol y gwaith gyda phartneriaid a'r gwaith da a'r llwyddiant a oedd eisoes wedi'i gyflawni yn y sir, a oedd hefyd wedi'i gydnabod yn adroddiad arolygu diweddar Estyn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol -

- gofynnwyd am ragor o fanylion o ran goblygiadau ariannol darparu'r Cynllun a rhoddodd swyddogion ddadansoddiad o ffrydiau ariannu a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru a sut gellid defnyddio'r arian hwnnw i fodloni canlyniadau, gan gynnwys ariannu ar gyfer cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus
- rhoddwyd sicrwydd hefyd fod y cyngor a'i bartneriaid yn gweithio'n barhaus i fanteisio ar unrhyw ffrydiau ariannu allanol o ffynonellau eraill sy'n agored iddynt, er mwyn diwallu nodau ac amcanion yn y Cynllun
- amlygwyd y gwaith da a'r llwyddiant a gyflawnwyd yn Sir Ddinbych gyda ffocws o'r newydd ar welliannau pellach o fewn adnoddau presennol a manteisio ar ffynonellau ariannu allanol sydd ar gael i ganolbwyntio ar ganlyniadau penodol
- cydnabuwyd yr angen am gydbwysedd i sicrhau'r ddarpariaeth iawn i ddysgwyr gan ystyried dewis rhieni a darparu cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg, a soniodd swyddogion am y gwaith cynhwysfawr a wnaed yn y sir o ran rhagweld galw am leoedd ysgol a oedd wedi nodi cynnydd o ran galw am leoedd Cyfrwng Cymraeg
- cyfeiriwyd at fanteision addysg ddwyieithog, yn enwedig o ran cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol lle roedd rhuglder yn y Gymraeg yn bwysig, a'r her i ddangos manteision addysg ddwyieithog i deuluoedd di-Gymraeg er mwyn gallu gwneud dewisiadau deallus ar gyfer dysgwyr o oedran cynnar
- cadarnhawyd bod y Gymraeg wrth wraidd Cwricwlwm y Dyfodol gan ganolbwyntio ar ddysgu o ansawdd uchel i ddisgyblion ac roedd y safonau arweinyddiaeth ac addysgu newydd hefyd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd datblygu'r Gymraeg a diwylliant yn y proffesiwn ac mewn ysgolion
- soniwyd am y berthynas ragorol gyda phartneriaid a oedd yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun a hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog mewn ysgolion a chymunedau
- rhoddwyd teyrnged i waith Athrawon Bro, ac roedd dyfarniad gwobr arian Siarter y Gymraeg, a oedd wedi'i gyflawni gan bob ysgol Cyfrwng Cymraeg yn y sir, yn brawf o hyn, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i barhau'r llwyddiant hwnnw mewn ysgolion Cyfrwng Saesneg a chefnogi gwaith y Cynllun
- dywedodd swyddogion y byddai'r Cynllun yn cael ei fonitro gan Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg a byddai'n cynnwys cerrig milltir o ran monitro amcanion i benderfynu ar gynnydd ysgolion ac roedd disgwyliad i ysgolion gynnwys sut roeddent wedi ymateb i ganlyniadau yn y Cynllun a'u hadroddiadau blynyddol
- dywedwyd y byddai'r mwyafrif o grantiau ar gyfer hyfforddiant a datblygu'r gweithlu drwy GwE a byddai cynnig hyfforddiant rhanbarthol a phecyn yn adeiladu ar lwyddiannau blaenorol gan gynnwys y rhaglen sabothol; roedd hefyd yn bwysig cynnig rhaglen hyfforddiant fwy pwrpasol i ddiwallu anghenion athrawon
- soniodd swyddogion am gofnod cryf y Cyngor o gynnal trawsnewid o leoliadau cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg a soniodd am wahanol lwybrau

sydd ar gael, gan gynnwys trochi a pheripatetig ond amlygodd fod y cynnig yn dibynnu ar anghenion y plentyn ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynnig mwy hyblyg, cadarn, a pharhaus i adeiladu ar y llwyddiant hwnnw

- o ran gwerthuso addysg Cyfrwng Cymraeg a nodi unrhyw fylchau, cynhaliwyd arolygon rheolaidd i sicrhau lefel o allu ac i nodi diffygion i dargedu datblygiad proffesiynol sgiliau yn effeithiol
- cydnabu swyddogion bryderon penodol a godwyd gan y Cynghorydd Mabon Ap Gwynfor o ran cryfder y cynnig cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dinas Bran a cholli disgyblion o addysg cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Dyfrdwy ynghyd ag effaith y polisi cludiant ysgol gan ystyried pa mor agos mae'r ffin â Gwynedd a chadarnhaodd y bwriad i ystyried ardal Llangollen fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif Band B a rhoi sylw i'r materion a godwyd fel rhan o'r adolygiad hwnnw.
  Amlygwyd cymhlethdod y mater a oedd yn cwmpasu nifer o bolisïau a gweithdrefnau
- cydnabuwyd pwysigrwydd datblygu sgiliau ar gam cynnar i wella datblygiad, ynghyd â sicrhau nad oedd disgyblion yn cael eu colli o barhau ag addysg Cyfrwng Cymraeg yn dilyn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac ar yr un pryd amlygwyd cyfleoedd i'r rhai o leoliadau Cyfrwng Saesneg sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg naill ai fel hwyrddyfodiaid neu wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd – er mwyn hyrwyddo'r cynnig Cymraeg, roedd y Tîm Cyfathrebu yn datblygu strategaeth farchnata, a oedd yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod rhieni yn gwbl ymwybodol o fanteision addysg ddwyieithog wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plant
- Roedd Cynghorydd Bobby Feeley yn falch o amlygu bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych wedi cynyddu o 24.6% yng nghyfrifiad poblogaeth 2011 i 37.7% yn yr arolwg poblogaeth blynyddol yn 2017.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 arfaethedig a oedd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018, a*

*(b) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (fel y manylir yn Atodiad 2 yr adroddiad), fel rhan o'i ystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn (11.45am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad a nodai'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2018/19 a'r Llyfr Crynhoi'r Gyllideb 2018/19. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn-

- roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn £194.418m (£189.252m yn 2017/18)
- manylwyd ar arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a gytunwyd gwerth £4.6m gan gynnwys y rhai a oedd eisoes wedi'u cyflawni gyda'r rhagdybiaeth y

byddai'r holl arbedion effeithlonrwydd/arbedion gwasanaeth yn cael eu darparu – byddai unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet os oedd angen
- nid oedd amrywiadau i'w hadrodd ar y cam hwn yn y flwyddyn ariannol, ond roedd nifer o bwysau gwasanaeth wedi'u nodi a oedd angen eu monitro'n ofalus
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf, Y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo defnyddio Grant Cyfalaf unwaith yn unig Ailwampio Priffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau blaenoriaeth fel a argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- trafodwyd y pwysau parhaus ar ofal cymdeithasol a soniodd swyddogion am waith i fodelu anghenion yn y dyfodol gan ddweud bod tueddiadau data wedi dangos cynnydd o ran cost drwy'r sector a chynnydd o ran cymhlethdod rhai achosion.
  Roedd angen canolbwyntio ar yr effaith uniongyrchol dros y blynyddoedd nesaf i lywio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac roedd y pwysau yn destun adolygiad blynyddol i lywio cyflwyniadau cyllideb y flwyddyn sydd i ddod. Amlygwyd pwysigrwydd gwasanaethau hamdden hefyd fel elfen allweddol o ran adeiladu cadernid a lles gyda'r effaith o leihau galw ar wasanaethau eraill.
- gwnaeth yr Arweinydd groesawu'r cyllid grant ychwanegol ar gyfer priffyrdd gan Lywodraeth Cymru ond amlygodd anawsterau o ran rheoli dyraniadau unwaith yn unig ar fyr rybudd, ac roedd yn gobeithio y byddai unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ym mlynyddoedd y dyfodol yn cael eu dyrannu ar gam cynharach, fel drwy'r setliad Grant Cynnal Refeniw, er mwyn cynorthwyo cynllunio ariannol yn well.
  Ychwanegodd fod rhinweddau cyllideb tair blynedd yn hytrach na setliad cyllideb blynyddol unwaith yn unig ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i drafod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Dywedodd Cynghorydd Brian Jones y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 7 Mehefin i drafod cyllid priffyrdd a byddai'n codi'r pwynt am yr angen am ddyraniadau cyllid amserol er mwyn cynllunio gwaith priffyrdd yn effeithiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*

*(b) cymeradwyo'r defnydd o £1.2miliwn o grant cyfalaf unwaith yn unig gan Lywodraeth Cymru ar y cynlluniau priffyrdd blaenoriaeth fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn yr Achos Busnes (fel y manylir yn Atodiad 3 yr adroddiad).*

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nodwyd y byddai'r eitemau a ganlyn yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Mehefin -

- Cais Twf Rhanbarthol
- Sefydlu Fframwaith Cynnal a Chadw Bylchau

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**9 GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH**

Cyflwynodd Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol i geisio cymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract ar gyfer cyflenwi staff asiantaeth dros dro i'r cyflenwr a enwir fel a nodir yn yr adroddiad.

Roedd y Cabinet wedi cael adroddiad ym mis Rhagfyr 2017 o ran yr ymarfer caffael a phenderfynwyd gofyn i'r pwyllgor craffu priodol graffu ar y broses honno gydag opsiynau amgen ar agor i'r Cyngor yn seiliedig ar werth gorau. Roedd canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn hynny o beth wedi'u nodi yn yr adroddiad gyda manylion y weithdrefn gwerthuso tendrau a'r canlyniad a'r argymhelliad ar gyfer dyfarnu. Cadarnhaodd Cynghorydd Huw Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ei fod yn fodlon â'r argymhellion i'r Cabinet wrth symud ymlaen.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) penodi'r darparwr a enwyd fel a nodir yn yr adroddiad fel cyflenwr staff asiantaeth dros dro gan ddefnyddio cytundeb fframwaith MSTAR, a*

*(b) awdurdodi Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd i gymeradwyo a mynd i mewn i ffurf priodol o gontract gyda'r darparwr a enwir.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.